Senedd Cymru | Welsh Parliament
Ymchwil y Senedd | Senedd Research

# Amseroedd aros GIG Cymru – Adroddiad monitro tymhorol

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 8 Tachwedd 2023
Health and Social Care Committee | 8 November 2023

## Cyflwyniad

Dyma **bedwerydd adroddiad y Pwyllgor wrth iddo fonitro** targedau GIG Cymru ar gyfer adfer gofal a gynlluniwyd. Cafodd y targedau hyn eu pennu ym mis Ebrill 2022.

Ar 14 Mehefin 2023, bu'r Pwyllgor yn trafod y data ar amseroedd aros ym mis Mawrth 2023, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023, yn erbyn y targedau adfer gofal a gynlluniwyd. Roedd y data hyn yn dangos bod **Llywodraeth Cymru wedi methu â chyrraedd y ddau darged adfer cyntaf** o ran lleihau amseroedd aros i gleifion allanol i lai na 52 wythnos erbyn diwedd mis Rhagfyr 2022, a dileu arosiadau o ddwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023. Cafodd **targed adfer interim** a gytunwyd gan dîm Gwella ac Adfer Gofal a Gynlluniwyd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwasanaethau canser (i fodloni gofynion y Llwybr Canser Sengl o fewn 62 diwrnod ar gyfer 70 y cant o bobl erbyn mis Mawrth 2023) ei fethu hefyd.

Oherwydd hyn, cytunodd aelodau o Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd i drafod y materion perthnasol â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ('y Gweinidog'). **Mae'r sesiwn dystiolaeth gyhoeddus wedi'i threfnu ar gyfer 8 Tachwedd**. Gofynnodd yr Aelodau am ymateb ysgrifenedig gan y Gweinidog, a ddaeth i law ganddi ar 15 Awst. Hefyd, darparodd pob un

o'r saith bwrdd iechyd dystiolaeth ysgrifenedig ynghylch amseroedd aros yn y GIG. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth gyda Chonffederasiwn GIG Cymru a chynrychiolwyr y byrddau iechyd ar 12 Gorffennaf 2023.

Rhagor o wybodaeth:

- Cyhoeddir data ynghylch amseroedd aros yn fisol ar wefan StatsCymru gydag oedi o ddau fis.
- Mae adroddiadau monitro blaenorol ar gael ar wefan y Pwyllgor.
- Caiff lincs i adroddiadau uwchgynhadledd y Gweinidogion yn ymwneud ag orthopaedeg; offthalmoleg; y glust, y trwyn a'r gwddf; a chanser eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.
- Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru bellach yn cyhoeddi dangosfwrdd gofal eilaidd sy'n darparu data ar apwyntiadau cleifion allanol, derbyniadau cleifion mewnol a gweithgarwch achosion dydd yng Nghymru.

Noder: Nid yw nifer y llwybrau cleifion yn cyfateb i nifer y cleifion unigol, oherwydd bod gan rai pobl lwybrau lluosog yn agored. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn yr erthygl blog gan Brif Ystadegydd Llywodraeth Cymru.

Mae Diweddariad Ystadegol Llywodraeth Cymru yn adrodd bod tua 593,000 o gleifion unigol ar restrau aros am driniaeth yng Nghymru ym mis Awst, ar adeg pan oedd tua 760,300 o lwybrau cleifion yn agored.

# 1. Trosolwg

Ym mis Awst 2023, cynyddodd nifer llwybrau'r cleifion a oedd yn aros i ddechrau triniaeth o tua 748,400 ym mis Mai 2023 i tua 760,300. Dyma'r chweched cynnydd yn olynol a'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed.

Roedd nifer llwybrau'r cleifion a oedd yn aros i ddechrau triniaeth ym mis Awst 2023 **64.1 y cant yn uwch** nag ar ddechrau'r pandemig ym mis Chwefror 2020. Wedi'i addasu yn ôl poblogaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro oedd â'r nifer uchaf o lwybrau yn aros (27,576 fesul 100,000). Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan oedd â'r niferoedd isaf yn aros yn gyffredinol (22,806).

Mae'r data diweddaraf (cyhoeddwyd ar 19 Hydref) yn dangos y canlynol ar gyfer mis Awst 2023:

- roedd tua 52,600 o lwybrau cleifion yn aros dros 53 wythnos (dros flwyddyn) am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf ym mis Awst 2023. Er bod hyn 48.7 y cant yn llai na'r uchafbwynt ym mis Awst 2022, cynyddodd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros o gymharu â'r misoedd blaenorol. **Y targed adfer gofal a gynlluniwyd oedd dileu'r amseroedd aros hyn erbyn diwedd 2022 ond ni chyflawnwyd hyn**. Y targed diwygiedig yw cyflawni hyn erbyn mis Rhagfyr 2023;

- roedd dros 27,000 o lwybrau cleifion yn aros mwy na 105 wythnos (mwy na dwy flynedd) am driniaeth. Mae hyn 61.6 y cant yn is na'r uchafbwynt ym mis Mawrth 2022 ac mae'n parhau i ostwng o fis i fis. **Y targed adfer gofal a gynlluniwyd oedd dileu arosiadau o ddwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023 ond ni chyflawnwyd hyn**. Y targed diwygiedig yw cyflawni hyn erbyn mis Mawrth 2024;

- ar gyfer gwasanaethau diagnostig, cynyddodd nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am driniaeth i tua 119,900 ym mis Awst 2023, sef **y nifer uchaf ar gofnod**. Cynyddodd y nifer sy'n aros am fwy nag 8 wythnos (y targed o ran yr amser aros hiraf) i tua 50,000;

- o ran therapïau, gostyngodd nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am driniaeth i ychydig o dan 69,900 ym mis Awst. Fodd bynnag, **cynyddodd y nifer sy'n aros am fwy na 14 wythnos (y targed o ran yr amser aros hiraf)** i ychydig o dan 9,700;

- ar gyfer cleifion canser, bu gwellhad mewn perfformiad yn erbyn y targed 62 diwrnod (dechrau triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod o

amheuaeth o ganser am y tro cyntaf) i 57.3 y cant ym mis Awst. **Dyma'r perfformiad gorau ers mis Mawrth 2023 ond mae'n dal yn llawer is na'r targed**;.

- yr amser cyfartalog (canolrifol) yr oedd llwybrau cleifion yn aros am driniaeth ar ddiwedd mis Awst oedd **19.7 wythnos** (bron i 5 mis).

# 2. Cynnydd yn erbyn y pum targed adfer


Mae'r graffiau a'r dadansoddiad yn y papur hwn yn dangos cynnydd yn erbyn pum targed adfer Llywodraeth Cymru a nodwyd yn y cynllun adfer gofal a gynlluniwyd.

## 2.1 Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf

**Ni chyflawnwyd** targed adfer Llywodraeth Cymru i leihau amseroedd aros cleifion allanol i lai na 52 wythnos erbyn mis Rhagfyr 2022. Y targed diwygiedig yw cyflawni hyn erbyn mis Rhagfyr 2023.

Targed cynllun adfer 1: Dim cleifion yn aros mwy na blwyddyn am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf erbyn diwedd 2022

Ffigur 1: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros dros 53 wythnos am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf




Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl mis, wythnosau wedi'u grwpio a chamau ar hyd y llwybr

Methodd Llywodraeth Cymru â chyrraedd ei tharged adfer cyntaf i leihau amseroedd aros cleifion allanol i lai na 52 wythnos erbyn mis Rhagfyr 2022, yn ogystal â'i tharged diwygiedig, sef cyflawni hyn erbyn mis Mehefin 2023. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi dweud **bod angen i fyrddau iechyd gyrraedd y targed hwn erbyn mis Rhagfyr 2023**.

Mae amseroedd aros cleifion allanol yn cyfeirio at **faint o amser y mae'n rhaid i glaf aros am wasanaethau meddygol neu apwyntiadau sy'n golygu nad oes yn rhaid iddynt aros dros nos mewn cyfleuster gofal iechyd.** Gall y rhain gynnwys apwyntiadau gydag arbenigwyr, profion diagnostig, llawdriniaeth ddydd a gwasanaethau meddygol eraill a ddarperir ar sail cleifion allanol. Mae'r term 'amser aros claf allanol' fel arfer yn cyfeirio at yr amser rhwng gwneud atgyfeiriad (hynny yw, atgyfeiriad gan feddyg teulu neu ymarferydd meddygol arall) a phan fydd y claf yn cael yr apwyntiad. Dengys y data diweddaraf bod nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer cleifion allanol wedi bod yn amrywio, gyda thuedd tuag i fyny, ond bod atgyfeiriadau wedi codi'n raddol yn ôl i lefelau a welwyd cyn y pandemig. Gallai hyn awgrymu bod y cynnydd mewn atgyfeiriadau o ofal sylfaenol yn sefydlogi.

Os bydd atgyfeiriadau ar gyfer cleifion allanol yn parhau'n gyson ond bod amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol yn cynyddu, mae hyn fel arfer yn awgrymu bod problem yn y system gofal iechyd. Gall sawl ffactor gyfrannu at yr amseroedd aros hwy hyn. Er enghraifft, gall **diffyg gweithwyr gofal iechyd proffesiynol** megis arbenigwyr, nyrsys a staff cymorth arwain at oedi wrth drefnu a darparu gwasanaethau cleifion allanol.

Roedd tua **52,600 o lwybrau cleifion** yn aros dros 53 wythnos (dros flwyddyn) am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf ym mis Awst 2023. Mae'r data yn awgrymu bod y system gofal iechyd o dan bwysau llethol, gan arwain at **oedi mewn gofal i gleifion allanol nad ydynt yn achosion brys**. Caiff rhai achosion–er enghraifft, achosion brys o amheuaeth o ganser (sy'n gofyn am ganfod canser yn gynnar a thriniaeth ar unwaith)–eu blaenoriaethu dros eraill ar sail brys meddygol, gan arwain at oedi ar gyfer achosion llai brys.

Ymhlith y Byrddau Iechyd Lleol, roedd y nifer uchaf o lwybrau cleifion a oedd yn aros am fwy na blwyddyn fesul 100,000 o'r boblogaeth i'w gweld ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (2,929) a'r nifer isaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (165). Ceir gwahaniaethau nodedig mewn amseroedd aros ar draws byrddau iechyd.

## 2.2 Nifer y cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth gan y GIG o fewn dwy flynedd

Targed cynllun adfer 2: Dod â nifer y bobl sy'n aros am fwy na dwy flynedd i ddechrau triniaeth ar gyfer y rhan fwyaf o arbenigeddau i lawr i sero erbyn mis Mawrth 2023

Cyn y pandemig, cafodd ystadegau amseroedd aros misol eu cyhoeddi ar yr **amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth**, gyda thargedau y dylai 95 y cant o gleifion aros llai na 26 wythnos am driniaeth ar ôl atgyfeiriad, ac ni ddylai unrhyw glaf aros mwy na 36 wythnos am driniaeth ar ôl atgyfeiriad. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i adrodd ar y targedau hyn ar gyfer y cyfnod rhwng atgyfeirio a thriniaeth.

O ystyried yr ôl-groniad mewn triniaeth gofal a gynlluniwyd a achoswyd gan y pandemig COVID-19, pennodd y cynllun adfer gofal a gynlluniwyd **dargedau adfer** i ddileu arosiadau o ddwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023, gan ychwanegu na ddylai unrhyw glaf aros am fwy na blwyddyn yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn gwanwyn 2025. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y cleifion a oedd yn aros am fwy na blwyddyn ac am ddwy flynedd yn dilyn y pandemig COVID-19, ond mae'r niferoedd bellach yn gostwng.


**Yn achos arosiadau o ddwy flynedd, mae'r niferoedd yn gostwng ond mae cyflymdra'r adferiad yn arafach na'r disgwyl**. Mae cyfanswm nifer y llwybrau cleifion sy'n aros dwy flynedd yn parhau i ostwng bob mis ac mae'r ffigwr 61.6 y cant yn is na'r uchafbwynt ym mis Mawrth 2022. Fodd bynnag, mae'r niferoedd yn parhau i fod yn ystyfnig o uchel ac ni chyflawnwyd targed adfer Llywodraeth Cymru i ddileu arosiadau hir yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023. **Ni chyflawnwyd y targed ym mis Awst 2023 ychwaith**.

Ym mis Awst 2023:

- **roedd tua 27,000 o lwybrau cleifion yn aros am fwy na dwy flynedd** i ddechrau triniaeth yn y rhan fwyaf o arbenigeddau. Asesir hyn ar y sail bod 'y rhan fwyaf' yn cyfeirio at bob arbenigedd ac eithrio'r saith a gydnabyddir fel rhai hynod heriol. Wedi'i addasu yn ôl y boblogaeth, gwelwyd y nifer uchaf o gleifion yn aros mwy na dwy flynedd am driniaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (1,292).

Mae rhagamcan sy'n defnyddio data o'r cyfnod o fis Mawrth i fis Awst 2023 yn dangos, yn ôl y gyfradd gyfredol o gynnydd (hynny yw, os yw cyfradd y cynnydd ers mis Mawrth 2023 yn parhau), **ni chaiff y targed o ddileu arosiadau o ddwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau ei gyflawni tan oddeutu mis Medi 2025**. Y targed diwygiedig yw i fyrddau iechyd gyrraedd y targed hwn erbyn mis Mawrth 2024.

Ffigur 2: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am fwy na 105 o wythnosau i ddechrau triniaeth a'r amcanestyniad yn seiliedig ar y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Awst 2023




Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl mis, wythnosau wedi'u grwpio a chamau ar hyd y llwybr

## Arbenigeddau eithriadol o heriol

Yn y targedau adfer, mae 'y rhan fwyaf' yn cyfeirio at **bob arbenigedd ac eithrio'r saith a gaiff eu cydnabod fel rhai eithriadol o heriol**. Y saith arbenigedd yw dermatoleg; llawfeddygaeth gyffredinol; offthalmoleg; wroleg; gynaecoleg; orthopedeg; a'r glust, y trwyn a'r gwddf.


## 2.3 Nifer y cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth gan y GIG o fewn blwyddyn

Targed adfer 3: Dod â nifer y bobl sy'n aros mwy na blwyddyn i ddechrau triniaeth yn y rhan fwyaf o arbenigeddau i lawr i sero erbyn y gwanwyn 2025

O'r cyfanswm o 760,300 o lwybrau cleifion, roedd tua **134,400 yn aros dros flwyddyn i ddechrau triniaeth ar draws pob arbenigedd ym mis Awst**. Roedd y nifer hwn yn uwch na'r ddau fis blaenorol. Wedi'i addasu yn ôl poblogaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg oedd â'r nifer fwyaf o lwybrau cleifion a oedd yn aros dros flwyddyn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan oedd â'r lleiaf.

Mae'n parhau'n wir bod nifer sylweddol o bobl yn dal i aros am amser hir iawn i ddechrau triniaeth gan y GIG, a thra **roedd ffigurau cynharach yn cyfeirio at rywfaint o sefydlogi mewn perfformiad o ran amseroedd aros**, mae nifer y llwybrau cleifion sy'n aros dros 53 wythnos wedi cynyddu am y ddau fis diwethaf yn olynol. Mae hyn yn dangos pa mor sylweddol yw'r her o ymdrin â'r ôl-groniad a ddigwyddodd yn ystod y pandemig COVID-19.

Ffigur 3: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros dros 53 wythnos i ddechrau triniaeth yn y rhan fwyaf o arbenigeddau (ac eithrio'r saith a gydnabyddir fel rhai eithriadol o heriol)



Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl mis, wythnosau wedi'u grwpio a chamau ar hyd y llwybr


## 2.4 Diagnosteg a therapi

**Uchelgais 4: Cynyddu cyflymder profion diagnostig ac adrodd i wyth wythnos ac 14 wythnos ar gyfer ymyriadau therapi erbyn gwanwyn 2024**

Nid yw gwasanaethau diagnosteg na therapïau yn agos at y lefelau a welwyd cyn y pandemig. **Mae gan bob bwrdd iechyd lwybrau cleifion sy'n aros mwy na'r amser targed ar gyfer diagnosteg a therapïau**.

Bu cynnydd enfawr yn nifer y cleifion a oedd yn aros mwy nag 8 wythnos am wasanaethau diagnostig ar ddechrau'r pandemig, cyn i'r nifer hon ostwng drwy gydol 2020 ac **amrywio** ers hynny. Roedd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros mwy na 14 wythnos am wasanaethau therapi ar ei huchaf ym mis Mehefin 2020 a mis Mawrth 2022, ond mae'r nifer hon **wedi gostwng ers hynny.**

Ffigur 4: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros 8 wythnos neu fwy am wasanaethau diagnostig a thros 14 wythnos am wasanaethau therapi




Ffynhonnell: StatsCymru, Amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi


Ym mis Awst, bu **cynnydd o 7.5 y cant** (o gymharu â'r mis blaenorol) mewn llwybrau cleifion yn aros yn hwy na'r amser targed ar gyfer diagnosteg a **chynnydd o 16.6 y cant** (o gymharu â'r mis blaenorol) o lwybrau yn aros yn hwy na'r amser targed ar gyfer therapïau.

## 2.5 Amseroedd aros ym maes canser

Uchelgais 5: Diagnosis a thriniaeth canser i ddigwydd o fewn 62 diwrnod ar gyfer 80 y cant o bobl erbyn 2026

Mae cynllun adfer Llywodraeth Cymru yn cynnwys targed adfer ar gyfer gwasanaethau canser, sy'n cynyddu lefelau cydymffurfiaeth â'r Llwybr Canser Sengl (hynny yw, y bydd diagnosis a thriniaeth yn digwydd o fewn 62 diwrnod) o 75 y cant **i 80 y cant erbyn mis Mawrth 2026.** Gwnaeth y Gweinidog Iechyd wasanaethau canser yn un o'i chwe blaenoriaeth ar gyfer sefydliadau'r GIG yn Fframwaith Cynllunio'r GIG ar gyfer 2023/24.

Ffigur 5: Canran y bobl â diagnosis o ganser a oedd wedi dechrau'r driniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod i'r pwynt y cafodd canser ei amau gyntaf.





Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybr amheuaeth o ganser (llwybrau caeedig): Nifer y llwybrau gofal lle y dechreuodd y claf gael triniaeth ddiffiniol gyntaf a'r rhai a gafodd wybod nad oes ganddynt ganser, yn ôl bwrdd iechyd lleol, safle'r canser, grŵp oedran, rhyw, mesur ac yn ôl mis.

Mae targed y Llwybr Canser Sengl **yn mesur diagnosis a thriniaeth amserol**. Y nod yw sicrhau bod cleifion sydd â symptomau neu ag amheuaeth o ganser yn cael asesiad prydlon. Dylent gael eu gweld gan arbenigwr neu gael profion diagnostig o fewn pythefnos. Unwaith y bydd diagnosis o ganser wedi'i gadarnhau, mae ffocws y targed yn troi at yr amser a gymerir i ddechrau triniaeth briodol.

Mae perfformiad yn erbyn targed y Llwybr Canser Sengl (i gyrraedd 75 y cant o achosion o fewn y targed o 62 diwrnod) wedi bod **yn wael, ac mae'r sefyllfa hon yn parhau**. Nid oes yr un bwrdd iechyd yng Nghymru wedi cyrraedd y targed o 75 y cant ers mis Gorffennaf 2020. Cafodd **targed carreg filltir** o 70 y cant o gydymffurfiaeth erbyn mis Mawrth 2023 ei gytuno â'r byrddau iechyd, ond methwyd â chyrraedd y targed hwn hefyd. Ym mis Awst 2023, **dim ond 57.3 y cant o lwybrau cleifion** oedd yn cydymffurfio â tharged y Llwybr Canser Sengl. Mae'r amseroedd aros o ran canser ymhlith y gwaethaf erioed yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae ystadegau ar gael fesul **safle tiwmor canser**. Mae'r data o fis Awst 2023 yn dangos mai sarcoma, canserau wrolegol, canserau gynaecolegol, canserau gastroberfeddol is, a chanserau pen a'r gwddf sydd â'r gyfran leiaf o lwybrau cleifion sy'n dechrau eu triniaeth gyntaf o fewn 62 diwrnod.

Ffigur 6: Canran y bobl â diagnosis o ganser a oedd wedi dechrau'r driniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod i'r pwynt y cafodd canser ei amau gyntaf yn ôl safle'r tiwmor.




Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybr amheuaeth o ganser (llwybrau caeedig): Nifer y llwybrau gofal lle y dechreuodd y claf gael triniaeth ddiffiniol gyntaf a'r rhai a gafodd wybod nad oes ganddynt ganser, yn ôl bwrdd iechyd lleol, safle'r canser, grŵp oedran, rhyw, mesur ac yn ôl mis.

Mae **ymyriad canser cenedlaethol** bellach wedi'i wneud (gan Weithrediaeth GIG Cymru a Llywodraeth Cymru), sy'n canolbwyntio ar y tri safle tiwmor sy'n perfformio waethaf: canserau gynaecolegol, canserau wrolegol a chanserau gastroberfeddol is.

# 3. Adfer gwahanol arbenigeddau


Mae yna sawl arbenigedd lle mae amseroedd aros yn arbennig o hir. Mae'r Gweinidog Iechyd wedi dweud y bydd arbenigeddau heriol yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer camau gweithredu eleni. Mae hi wedi nodi **saith arbenigedd**, gan gynnwys: trawma ac orthopedeg; y glust, y trwyn a’r gwddf; offthalmoleg; llawfeddygaeth gyffredinol; wroleg; gynaecoleg a llawfeddygaeth y geg. Mae'r arbenigeddau hyn yn parhau i fod yn rhan o’r ystadegau swyddogol misol a gyhoeddir. Fodd bynnag, dywed y Gweinidog y bydd cyflawniad mewn rhai o’r arbenigeddau hyn yn “her sylweddol”.

Ffigur 7: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros dros 53 wythnos i ddechrau triniaeth yn ôl y llwybrau sydd â'r amseroedd aros hiraf (hynny yw, yn ôl swyddogaeth y driniaeth)




Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl mis, wythnosau wedi'u grwpio a thriniaeth, o Ionawr 2021 ymlaen

Ffigur 8: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros dros 105 wythnos i ddechrau triniaeth yn ôl y llwybrau sydd â'r amseroedd aros hiraf (hynny yw, yn ôl swyddogaeth y driniaeth)




Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl mis, wythnosau wedi'u grwpio a swyddogaeth y driniaeth, o fis Ionawr 2021 ymlaen

Bu rhywfaint o welliant o ran lleihau amseroedd aros yn y saith arbenigedd gofal a gynlluniwyd 'eithriadol o heriol' o ran arosiadau o flwyddyn a dwy flynedd, ond mae llawer o ffordd i fynd eto.